**Siaradwyr yng Nghyfarfodydd Zoom Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy (CTTHT).**

Gellir cynnal cyfarfodydd CTTHT:

- yn Neuadd y Sir,
- fel cyfarfod hybrid [rhai pobl yn Neuadd y Sir a rhai yn mynychu'r cyfarfod drwy Zoom] neu
- yn gyfan gwbl drwy Zoom.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi'r hyn sydd angen i chi ei wneud os byddwch yn ymuno trwy Zoom.

1. Bydd angen i siaradwyr allanol [h.y. nid cynghorwyr sir] lawrlwytho a sefydlu'r ap Zoom cyn y gallant ymuno â'r cyfarfod.

2. Bydd y Swyddog Cynllunio yn anfon eich manylion e-bost at y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, sy'n trefnu'r cyfarfodydd. Bydd y swyddog hwn yn anfon dolen atoch ar gyfer y cyfarfod Zoom.

3. Ar ddiwrnod y cyfarfod, cliciwch ar y ddolen a phan fydd y cyfarfod wedi dechrau, byddwch yn gweld y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu. Ar y pwynt hwn byddwch yn "Fynychwr". Pan fydd y cyfarfod yn cyrraedd y cais y mae gennych ddiddordeb ynddo, cewch eich tynnu i mewn i'r cyfarfod.

4. Bydd y Cadeirydd neu'r swyddog yn gofyn i chi gyflwyno eich hun a byddant yn cadarnhau y gallant eich clywed. Bydd pob siaradwr ar gyfer cais yn cael ei dderbyn i'r cyfarfod ar yr un pryd. Dylech allu clywed y siaradwyr eraill a gweld y cyfarfod. Os rhowch eich camera ymlaen, byddwch yn cael eich gweld yn y cyfarfod ac yn y gwe-ddarllediad.

5. Bydd y swyddog cynllunio yn gwneud cyflwyniad rhagarweiniol byr. Yna bydd siaradwyr yn cael eu cymryd yn y drefn ganlynol [fel y manylir yn y Protocol Cynllunio]:
   - Cynrychiolydd lleol
   - Cynrychiolydd Cyngor Tref neu Gymuned
   - Gwrthwynebydd
   - Ymgeisydd neu Asiant

6. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i chi siarad â'r Pwyllgor ac yn nodi y cewch eich cynghori pan fydd gennych un munud ar ôl. Fel canllaw, mae datganiad 5 munud oddeutu 750 o eiriau ac mae datganiad 8 munud oddeutu 1200 o eiriau. Bydd yr amserydd yn seinio pan fydd eich amser wedi dod i ben a bydd y Cadeirydd yn gofyn i chi ddod â'ch datganiad i ben.

7. Ar ôl i'r siaradwyr siarad, bydd eu camerâu a'u meicroffonau yn cael eu diffodd. Yna bydd y swyddog cynllunio yn parhau gyda'i gyflwyniad. Yna bydd y Pwyllgor yn trafod y cais. Pan fydd y cais wedi'i ystyried a bod penderfyniad wedi'i wneud, bydd y gwahoddwr yn eich tynnu o'r cyfarfod.

8. Y gobaith yw y bydd y dechnoleg yn gweithio ar ddiwrnod y cyfarfod. Fodd bynnag, i reoli unrhyw fethiannau, anfonwch e-bost at y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd erbyn 0900 o'r gloch ar ddiwrnod y cyfarfod. Os na allwch siarad yn y cyfarfod, bydd swyddog yn darllen eich datganiad i'r Pwyllgor.

   Os ydych wedi ysgrifennu eich datganiad yn Gymraeg byddwn yn gofyn i'n Uned Gyfieithu i'w gyfieithu.

   Dylid ebostio eich datganiad i carol.johnson@powys.gov.uk

9. Ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben bydd recordiad y cyfarfod yn cael ei ychwanegu at wefan y Cyngor o fewn 48 awr.